# LLANRUG COMMUNITY COUNCIL NEWSLETTER

## 2024 - 2025 Report

### Introduction by Councillor Rhys Parry, Council Chair




As your chair for the year 2024/25 I would like to thank Meirion, our clerk for all his work. I would also like to express thanks to my fellow councillors for their continuous work in implementing the precept for the benefit of the community. We are fortunate that we have at present a small but active group of councillors. During the last year we are fortunate that we have been assisted by volunteers from the community which makes Llanrug an excellent place to live. Llanrug Community Council is an active council and has achieved much with the precept. It is also conscientious in responding to concerns and challenges that arise regarding controversial planning applications. It is a pleasure to report that two new Defib have been sited in the area; we have worked with and responded to a request by a resident who was enthusiastic about having a Defib in Crawia. We have been proactive in responding to the concerns of residents about the land of the former schoolhouse. There will be an opportunity for us as a community council to be the voice of the community in shaping the future regarding housing developments, the future of the former Cwm y Glo school and much more. During the year, it is hoped that there will be much more collaboration and clear communication with the elected members of Gwynedd Council, other organisations and more importantly with the residents and local organisation/businesses. We are looking forward to the Cemetery project which will be realised and will ensure a clear and sustainable future with the extension of the burial spaces available. As the Council Chair I am keen to continue to deliver for the benefit of our community. To operate efficiently we would welcome those with new ideas and those able to challenge to join us. If you are interested, please contact us.

### Regarding the specific activities that the council does:

#### Litter Picking

We have decided not to arrange specific litter picking days but if anyone would like to undertake this service, the council can provide the equipment. Please contact the clerk or other members of the community council, if interested.

#### Llanrug Cemetery

Again, this year we have invested in the cemetery. The risk assessment will continue to be undertaken on the memorials in accordance with our continuous programme to ensure that the memorials are safe and meet the latest safety criteria of the industry.

There is more to be done, therefore, if you would like to contribute to the maintenance costs of the cemetery, please contact the Clerk.

It was an honour to announce that Llanrug Cemetery had won a silver award for the third consecutive year in the Cemetery of the Year competition throughout Britain.

This is a competition which is held and approved by the following professional bodies:

- Memorial Awareness Board (MAB)
- Institute of Cemetery and Crematorium Management (ICCM)
- The Federation of Burial and Cremation Authorities (FBCA)
- The Society of Local Council Clerks (SLCC)
- British Register of Accredited Memorial Masons (BRAMM)

The council is preparing for the long-term future and expenditure by extending the cemetery. You will see that a wall has been erected around the extended part of the cemetery and more work will continue to be done during 2025 / 2026.




#### Playing Fields

A significant sum has been allocated towards our playing fields, and it is good to see that the outdoor gym at Cwm y Glo is being used regularly.

The maintenance of our playing fields is a priority which is in accordance with our Health and Safety policy, and I would like to thank everyone who is keeping an eye to ensure that no damage is caused.

Recently, the council has engaged with primary school children to ask what equipment they would like to see at Pwll Moelyn playing field. We had a positive response and picnic tables came to the top of the list. The council has purchased two picnic tables, and they will be sited in the coming weeks.

Climbing equipment was second on the list. The council will look into providing this type of equipment in 2025 / 2026.

The council would like to thank the school children tor taking part in the survey.

## Beth mae Cyngor Cymuned Llanrug wedi ei wneud yn ystod 2024 / 2025?

Mae'r cyngor wedi llwyddo i:

- Cynnal a chadw campfa awyr agored Cwm y Glo a gwella'r cyfle i'w defnyddio drwy roi wyneb priodol arni;
- Cynnal a chadw dau faes chwarae yng Nghwm y Glo (Dolafon ac Allt Goch)
- Cynnal a chadw parc sglefrio Cwm y Glo
- Cynnal a chadw dau faes chwarae yn Llanrug (Nant y Glyn a Phwll Moelyn)
- Cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio
- Gofalu am gysodfannau bws
- Cyfrifoldeb am naw diffibriliwr sydd wedi'u lleoli tu allan i'r Sefydliad Coffa, Premier Llanrug, Glyntwrog, Ysgol Brynrefail, London Garage, Y Fricsan, Maes Carafannau Tyn y Coed ger Bryn y Maen, Ceunant a ger tai Crawia.




- Yn ystod 2024 / 2025 mae grantiau o £6,950 wedi'u dosbarthu i fudiadau lleol
- Darparu addurniadau Nadolig a cynnal cystadleuaeth addurno tai ar gyfer 2025.
- Ariannu a cadw clwb ieuenctid Llanrug ar agor ble mae tua 136 o blant wedi cofrestru gyda'r clwb gyda hyd at 60 o blant yn mynychu yn rheolaidd
- Gofalu am y maes parcio ger siop Premier
- Cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus
- Torri gwair o flaen ystadau tai yn Llanrug a Dolafon, Cwm y Glo
- Sefydlu a gweinyddu'r cynllun bwyd
- Plannu bylbiau cennin pedr a blodau eraill yn yr ardal
- Yng ngwasanaeth Sul y Cofio, bydd Cadeirydd y Cyngor yn cyflwyno torch ar ran y Cyngor
- Rheolaeth dros fynwent Llanrug
- Sefydlu a rhedeg system ddigidol i chwilio, rheoli a gweinyddu'r fynwent https://cemeterysearcher.co.uk/search/llanrug
- Cynnal a gweithredu ar asesiad risg ar gyfer y fynwent
- Darparu cymorth i drigolion o dan gynllun grant disgresiwn y cyngor
- Gweithredu a hyrwyddo polisi amgylcheddol a hybu bioamrywiaeth

### O ble daw'r arian?

Mae'r Cyngor yn derbyn y mwyafrif o'i incwm drwy godi praesept (yr hyn a delir drwy'r dreth gyngor). Ar gyfer 2024 / 2025 roedd praesept y Cyngor yn £85,000.

**Ar gyfer 2024 / 2025 mae cyllideb y cyngor fel a ganlyn:**

| INCWM | | GWARIANT | |
|---|---|---|---|
| Arian wrth gefn | £63,644 | Gweinyddiaeth a rheolaeth | £24,207 |
| Praesept | £85,000 | Cymunedol | £33,368 |
| Y Fynwent | £7,030 | Y Fynwent | £19,631 |
| Ad-daliad TAW | £4,303 | Grantiau | £6,950 |
| Cyfraniad at dorri llwybrau | £368 | Torri Llwybrau | £1.920 |
| Llog | £1,586 | Caeau Chwarae | £27,555 |
| Grant | £2,170 | Wrth gefn | £54,969 |
| Eraill | £4,499 | | |
| **Cyfanswm** | **£168,600** | **Cyfanswm** | **£168,600** |

### Beth yw Cyngor Cymuned?

Cyngor cymuned yw'r haen isaf o lywodraeth leol, ond hefyd yr haen bwysicaf oherwydd mae'n nes at y bobl mae'n eu gwasanaethu. Pwrpas y newyddlen yma yw adrodd am yr hyn mae wedi'i gyflawni yn ystod y deuddeg mis diwethaf a'r hyn mae'n gobeithio ei gyflawni yn y deuddeg mis nesaf.

### Dyma restr o gynghorwyr cyfredol y cyngor

Rhys Parry | Cadeirydd ........ rhys.parry@llanrug.cymru
Avril Jones | Is-gadeirydd ........ avril.jones@llanrug.cymru
Philip Roberts ........ philip.roberts@llanrug.cymru
Hefin Jones ........ hefin.jones@llanrug.cymru
Richard Robinson ........ richard.robinson@llanrug.cymru
Beca Brown ........ beca.brown@llanrug.cymru
Berwyn Parry-Jones ........ berwyn.parry.jones@llanrug.cymru
Alan Pritchard ........ alan.pritchard@llanrug.cymru
Gwynedd Williams ........ gwynedd.williams@llanrug.cymru
Ann Lawton ........ ann.lawton@llanrug.cymru
Cemlyn Jones ........ cemlyn.jones@llanrug.cymru
Meirion Jones | Clerc ........ clerc@llanrug.cymru

**Gobeithio bod yr adroddiad yma yn rhoi braslun o'r hyn mae'r cyngor yn ei wneud. Os oes gennych unrhyw sylwadau am yr adroddiad, am waith y cyngor neu os ydych yn fodlon gwirfoddoli mewn unrhyw ffordd a wnewch gysylltu a'r clerc neu unrhyw aelod cyfredol o'r Cyngor?**

**Gellir cael copi o'r adroddiad yma ar wefan y cyngor ac mae hefyd ar gael ar mewn print bras a Braille.**

### Cynllun Bwyd

Mae'r Cyngor yn rhedeg cynllun i ddarparu pecynnau bwyd ac mae hefyd yn gweinyddu cynllun grant disgresiwn ar gyfer unigolion a theuluoedd. Gellir cael mwy o fanylion am y cynllun ar wefan y cyngor neu drwy gysylltu â'r clerc neu unrhyw aelod.

Fel cyngor, rydym wedi derbyn rhoddion tuag at gynnal y gwasanaeth ac rydym yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi cyfrannu. Os ydych yn teimlo y gallwch wirfoddoli gyda'r cynllun bwyd, yna cysylltwch â'r clerc neu unrhyw aelod am fwy o fanylion.

### Sul y Cofio

Gosododd y Cyngor Cymuned dorch i gofio'r rhai a gollwyd. Diolch i swyddogion y Sefydliad Coffa am drefnu ac i Seindorf Arian Llanrug am roi naws priodol i'r digwyddiad.

### Diwrnod VE a VJ

Mae dydd Iau 8 Mai 2025 yn nodi 80 mlynedd ers Diwrnod VE (Victory in Europe) pan ddaeth yr Ail Ryfel Byd i ben yn Ewrop.

Arweiniodd y newyddion hir ddisgwyliedig at ddathliadau digymell yn torri allan ar draws y wlad. Cyhoeddwyd gwyliau cenedlaethol a daeth pobl o bob cefndir at ei gilydd i nodi'r foment.

Ni ddaeth y rhyfel yn y Dwyrain i ben tan 15 Awst 1945, pan ildiodd Japan. Dathlwyd y diwrnod ar draws y byd fel 'Victory over Japan' (Diwrnod VJ).

Mae 80 mlynedd ers Diwrnod VE yn amser i genedl ddod at ei gilydd i ddysgu am straeon y rhai a wasanaethodd a chenhedlaeth y Diwrnod VE, o'r milwyr a ymladdodd, i'r plant a gafodd eu gwacáu, a menywod ar y ffrynt cartref.

Bydd y cyngor yn cofio yr achlysur pwysig yma.

### Nadolig 2025

Pan ddaw Rhagfyr, braf yw gweld addurniadau Nadolig yn Llanrug gyda choeden yn Llanrug a Chwm y Glo. Diolch i Ysgol Gynradd Llanrug ac i London Garage, Cwm y Glo am y cyd-weithio ac am gytuno i leoli'r coed. Diolch i rai ar draws yr ardal am fod yn rhan o'r gystadleuaeth Nadolig. Beth am roi cynnig arni yn 2025?

Fel y gwelwch o'r holl weithgareddau, mae Cyngor Cymuned Llanrug yn gyngor gweithgar dros ben ac yn cyflawni llawer iawn allan o'r praesept. Ond, cofiwch fod yr esgid yn gwasgu yn yr hinsawdd ariannol gan achosi gofid i unigolion a theuluoedd, felly gyda'n gilydd, gallwn gynnig gobaith a phwrpas i bawb yn ein cymuned.

Diolch yn fawr.

**Cynghorydd Rhys Parry**




## Y Cyngor

Mae'r Cyngor yn cynnwys pedwar ar ddeg o aelodau (cynghorwyr) sy'n cynrychioli tair ward, Llanrug, Ceunant a Chwm y Glo. Fe restrir aelodau presennol y Cyngor ar ochr arall y ddalen yma gyda'u manylion cyswllt. Cynhelir cyfarfodydd o'r cyngor ar y 3ydd dydd Mawrth o bob mis drwy Zoom, ac mae'r Cyngor yn croesawu'r cyhoedd i fod yn bresennol. Cefnogir y cyngor gan bum pwyllgor, sef Hamdden a Mwynderau, Y Fynwent, Bwyd a Llesiant, Cyllid ac Adnoddau, ac Iechyd a Diogelwch. Bydd agenda a chofnodion y Cyngor i'w gweld ar ein gwefan www.llanrug.cymru.

### Mae eich angen chi. Beth am fod yn gynghorydd?

Mae Cyngor Cymuned Llanrug yn cynnal ei gyfarfodydd yn rhithiol sydd yn golygu gallwch ymuno a'r cyfarfod o unrhyw le. Bydd y cyngor yn darparu gliniadur ar gyfer gwaith y cyngor ynghyd a cyfeiriad e-bost penodol.

Mae lwfans ar gael ar gyfer costau band eang dreuliau eraill ac yn ogystal mae lwfans ar gael ar gyfer costau dros ymrwymiadau gofal.

Mae'r Cadeirydd presennol yn dad i ddau o blant bach ac oherwydd ei fod yn gallu mynychu'r cyfarfodydd yn rhithiol, mae'n golygu nad yw cyfrifoldebau gofal plant yn nadu iddo gario allan ei swydd fel cynghorydd.

Mae tair sedd wag ar y cyngor ar hyn o bryd, felly dyma gyfle i chi roi eich hun ymlaen fel cynghorydd a bydd y cyngor yn cyfethol yn y misoedd nesaf.

- Ydych chi'n angerddol ynghylch eich cymuned leol?
- Oes yna rywbeth rydych chi am newid?
- Ydych chi'n barod i wneud penderfyniadau heriol?
- Beth am sefyll dros yr hyn sydd yn bwysig i chi a dod yn gynghorydd?

Mae'r Cyngor yn gallu ystyried unrhyw berson sydd yn ddinesydd Prydeinig, y Gymanwlad, Iwerddon neu'r Undeb Ewropeaidd ac sy'n 18 oed neu hŷn i lenwi sedd wag ar yr amod eu bod yn cyflawni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:-

- wedi cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal a enwir uchod; neu
- yn ystod y cyfan o'r 12 mis diwethaf, wedi bod yn berchennog neu'n denant tir neu safle arall yn y gymuned a enwir uchod; neu
- wedi bod â'ch prif neu'ch unig weithle yn ystod y 12 mis diwethaf yn y gymuned a enwir uchod; neu
- rydych wedi byw yn y gymuned, neu o fewn 4.8 cilometr ohoni yn ystod y cyfan o'r 12 mis diwethaf.

Ni allwch sefyll i fod yn gynghorydd os ydych chi:-

- yn destun gorchymyn cyfyngu methdaliad neu orchymyn interim.
- o fewn pum mlynedd cyn diwrnod yr etholiad, wedi cael euogfarn yn y Deyrnas Unedig o drosedd ac wedi cael dedfryd o garchar (boed wedi'i gohirio neu beidio) am gyfnod o fwy na thri mis heb yr opsiwn o ddirwy.
- rydych chi'n gweithio i'r cyngor yr hoffech fod yn gynghorydd arno (ond gallwch weithio i awdurdodau lleol eraill, gan gynnwys y prif awdurdodau sy'n cynrychioli'r un ardal).
- wedi cael eich anghymwyso o dan unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud ag arferion llygredig neu anghyfreithlon.

Os oes diddordeb gennych mewn eistedd fel cynghorydd, dylech anfon datganiad o ddiddordeb at sylw'r Clerc

Am fwy o fanylion am waith cynghorydd dylech gysylltu â chlerc y cyngor (manylion cyswllt drosodd) neu un o'r aelodau.

### Food Scheme

The Council is running a scheme to provide food packages and is also administrating a discretionary grant for individuals and families. More details can be found about the scheme on the council's website or by contacting the clerk or any other member.

As a council, we have received donations to provide the service and we are grateful to everyone who has contributed. If you feel that you can volunteer with the food scheme, please contact the clerk or any member for more details.

### Remembrance Sunday

The Community Council provided a wreath in memory of those that were lost. Thanks to the Institute Officers for arranging and to Llanrug Silver Band for setting the right tone for the event.

### VE and VJ Day

Thursday,8 May 2025 commemorates 80 years since VE Day (Victory in Europe) when the Second World War in Europe came to an end.

The long-awaited news resulted in spontaneous celebrations throughout the country. National holidays were announced and people from all backgrounds came together to commemorate the moment.

The war in the East did not end until 15 August 1945, when Japan surrendered. The day was celebrated all over the world as 'Victory over Japan' (Diwrnod VJ).

80 years since VE day is a time for the nation to come together to learn about the stories of those who served and the VE Day generation, from the soldiers who fought, to the children evacuated, and the women on the home front.

The council will remember this important occasion.

### Christmas 2025

When December comes, it is wonderful to see the Christmas decorations in Llanrug with a tree at Llanrug and Cwm y Glo, Thanks to Llanrug Primary School and London Garage, Cwm y Glo for collaborating with us and agreeing to locating the trees on their premises. Thanks to those in the area for taking part in the Christmas competition. Have a go in 2025?

As you see from all the activities, Llanrug Community Council is an active council and has achieved much with the precept. But remember, that times are hard in the present financial climate which is a cause of worry for individuals and families. Therefore, together, we can offer hope and purpose to everyone in our community.

Thank you.

**Councillor Rhys Parry, Council Chair**



## The Council

The Community Council comprises fourteen members (councillors) who represent three wards, Llanrug, Ceunant and Cwm y Glo. The current members of the Council are listed over the page with their contact details. Meetings of the council are held on the 3rd Tuesday of every month via Zoom. The Council welcomes members of the public to attend. Five Committees serve the council, Leisure and Amenities, Cemetery, Food and Wellbeing, Finance and Resources, Health and Safety. The agenda and minutes of the Council are on our website www.llanrug.cymru.

### We need you. Become a councillor?

Meetings of Llanrug Community Council are held virtually which means that you can join the meeting from anywhere. The council provides a laptop for the work of the council and a specific e-mail address.

An allowance is available to cover broad band costs and other expenses. There is also an allowance available to cover care commitments.

The current Chair is a father of two and as he can attend meetings virtually, this means that childcare responsibilities does not prevent him from undertaking the role of councillor.

There are three empty seats on the council at present. This is an opportunity for you to put your name forward to become a councillor, and the council will be co-opting in the coming months.

- Are you enthusiastic about your local community?
- Is there something you would like to change?
- Are you ready to make challenging decisions?
- Why don't you stand for the issues that are important to you and become a councillor?

The Council can consider any individual who is a British citizen, a citizen of the Commonwealth, the Irish Republic, or the European Union. You must be at least 18 years old to become a Councillor and should meet at least one of the following.

criteria: -

- registered as a local government elector for the area of the authority named above; or
- for the whole of the previous 12 months occupied as owner or tenant any land or other premises in the community named above; or
- the principal or only place of work during the last 12 months was in the community named above; or
- you have resided in the community, or within 4.8 kilometres during the whole of the last 12 months.

You cannot become a councillor if you are: -

- subject to a bankruptcy restrictions order or an interim order
- in the previous 5 years before the election day, have been convicted in the United Kingdom of a crime and have been sentenced to prison (whether suspended or not) for 3 months or more without the option of a fine.
- you are working for the council that you wish to become a councillor for (but you can work for other local authorities, including the main authorities representing the same area).
- disqualified under any legislation involving corrupt or illegal practices.

If you are interested in becoming a councillor, please send a declaration of interest to the Clerk.

For more details on the work of a councillor, please contact the clerk (contact details over the page) or one of the members.

## What has Llanrug Community Council achieved in 2024 / 2025?

The council has succeeded to:

- Maintain the outdoor gym at Cwm y Glo and the provide an appropriate surface to improve the opportunity to use the gym.
- Maintain two playing fields at Cwm y Glo (Dolafon and Allt Goch)
- Maintain the skate park at Cwm y Glo.
- Maintain two playing fields at Llanrug (Nant y Glyn and Pwll Moelyn)
- Submit observations on planning applications.
- Maintain bus shelters.
- Responsible for nine defibrillators which are located outside the Memorial Institute, Premier Llanrug, Glyntwrog, Ysgol Brynrefail, London Garage, Y Fricsan, Tyn y Coed Caravan Park by Bryn y Maen, Ceunant, and by the houses at Crawia.



- During 2024 / 2025, grants of £6,950 have been distributed to local organisations.
- Provide Christmas decorations and organise a Christmas house decoration competition for 2025.
- Fund and keep Llanrug youth club open; approximately 136 children have registered with the club with up to 60 children attending regularly.
- Maintain the car park by Premier.
- Maintain the public footpaths.
- Grass cutting the front of the estates at Llanrug and Dolafon, Cwm y Glo.
- Set up and administrating the food bank scheme.
- Daffodil bulbs and other flowers have been planted in the area.
- At the Remembrance Sunday service, the Council Chair presents a wreath on behalf of the Council.
- Manage Llanrug Cemetery
- Set up and run a digital system to look, manage and administer the cemetery. https://cemeterysearcher.co.uk/search/llanrug
- Undertake and implement a risk assessment of the cemetery.
- Provide assistance to residents via the Council's discretionary grant scheme.
- Implement and promote the environmental and biodiversity policy.

## Where does the money come from?

The Council receives most of its income from the precept (which is paid from council tax). For 2024/25 the council's precept was £85,000.

**For 2024 / 2025 the council's budget is as follows**

| INCOME | | EXPENDITURE | |
|---|---|---|---|
| Reserve | £63,644 | Administration and management | £24,207 |
| Precept | £85,000 | Community | £33,368 |
| The Cemetery | £7,030 | Cemetery | £19,631 |
| VAT repayment | £4,303 | Grants | £6,950 |
| Contribution for clearing paths | £368 | Clearing Paths | £1.920 |
| Interest | £1,586 | Playing Fields | £27,555 |
| Grant | £2,170 | Reserve | £54,969 |
| Other | £4,499 | | |
| **Total** | **£168,600** | **Total** | **£168,600** |

## What are community councils?

Community councils are the lowest tier of local government, but on the other hand, the most important tier as they are the closest to the people they serve. The purpose of this newsletter is to report on what has been achieved over the last 12 months and what it hopes to achieve in the next twelve months.

## List of current councillors

| | |
|---|---|
| Rhys Parry \| Chair | rhys.parry@llanrug.cymru |
| Avril Jones \| Vice-chair | avril.jones@llanrug.cymru |
| Philip Roberts | philip.roberts@llanrug.cymru |
| Hefin Jones | hefin.jones@llanrug.cymru |
| Richard Robinson | richard.robinson@llanrug.cymru |
| Beca Brown | beca.brown@llanrug.cymru |
| Berwyn Parry-Jones | berwyn.parry.jones@llanrug.cymru |
| Alan Pritchard | alan.pritchard@llanrug.cymru |
| Gwynedd Williams | gwynedd.williams@llanrug.cymru |
| Ann Lawton | ann.lawton@llanrug.cymru |
| Cemlyn Jones | cemlyn.jones@llanrug.cymru |
| Meirion Jones \| Clerc | clerc@llanrug.cymru |

**It is hoped that this report provides a snapshot of what the Council does. If you have any comments on the report, or the Council's work or would like to volunteer, please contact the clerk or any current member of the Council.**

**A copy of this report is available on the Council's website. It is available in large print or Braille.**

# CYNGOR CYMUNED LLANRUG NEWYDDLEN

## Adroddiad 2024 - 2025

## Rhagarweiniad gan y Cynghorydd Rhys Parry, Cadeirydd y Cyngor




Fel eich cadeirydd am y flwyddyn 2024/2025 dymunaf ddiolch i  Meirion ein clerc am ei holl waith. Diolch i'm cyd gynghorwyr am eu holl  Waith parhaus yn gweithredu'r praesept er budd y gymuned ag yn hynod ffodus cael grŵp o gynghorwyr sydd ar hyn o bryd yn fychan ond hynod o weithgar. Yn ystod y flwyddyn diweddar yr ydym yn ffodus ein bod hefyd yn cael ein cynorthwyo gan wirfoddolwyr o'r gymuned  sydd yn gwneud Llanrug yn le gwerth chweil i fyw. Mae Cyngor Cymuned Llanrug yn gyngor gweithgar dros ben ac yn cyflawni llawer iawn allan o'r praesept ag yn  gydwybodol wrth ymateb i bryderon a heriau a oedd yn codi ben megis ceisiadau cynllunio dadleuol. Mae'n bleser hefyd ein bod wedi medru rhoi dau Diffib yn yr ardal gan gydweithio ag ymateb i gais trigolyn a oedd yn angerddol am gael Diffib yn Crawia. Rydym wedi bod yn rhagweithiol yn ymateb i bryderon trigolion yn pryderu am ddyfodol tir hen dy yr ysgol gynradd fel esiampl. Bydd hefyd le i ni fel cyngor cymuned fod yn lais i'r gymuned wrth siapio'r dyfodol megis datblygiadau tai, dyfodol hen ysgol Cwm y Glo a llawer mwy. Yn ystod y flwyddyn y gobaith yw bydd llawer o gydweithio a chyfathrebu clir gyda aelodau etholedig Cyngor Gwynedd, sefydliadau eraill ag yn bwysicaf oll  trigolion a busnesa u / mudiadau lleol. Rydym yn edrych ymlaen i brosiect yn y Fynwent cael ei wireddu a fydd yn sicrhau dyfodol glir a cynaliadwy wrth estynna ar yr ofod gladdu.  Rwyf fel Cadeirydd y Cyngor yn awyddus iawn i barhau i gyflawni er budd ein cymuned. Er mwyn medru gweithredu yn effeithiol rydym yn awyddus i gael syniadau newydd a medru herio i ymuno gyda ni. Os oes awydd, cysylltwch gyda ni.

## O ran y gweithgareddau penodol mae'r cyngor yn ei wneud:

### Casglu Sbwriel

Rydym wedi penderfynu peidio a cynnal diwrnodau casglu sbwriel penodol ond os oes unrhyw un yn dymuno cario allan y gwasanaeth yma, gall y cyngor ddarparu offer dim ond i gysylltu a'r clerc neu unrhyw aelod o'r cyngor.

### Mynwent Llanrug

Eleni eto, rydym wedi buddsoddi yn y fynwent. Bydd asesiad risg yn parhau i'w wneud  ar y cofebion i gyd-fynd â'n rhaglen barhaus i sicrhau fod cofebion yn y fynwent yn saff ac yn cwrdd â meini prawf diogelwch diweddaraf y diwydiant.

Mae mwy i wneud, felly os dymunwch gyfrannu tuag at gostau cynnal a chadw'r fynwent, cysylltwch gyda'r Clerc.

Braint yw cyhoeddi fod mynwent Llanrug wedi ennill gwobr arian am y drydedd flwyddyn yn olynol yng nghystadleuaeth Mynwent y Flwyddyn drwy Brydain.

Cystadleuaeth yw hon sydd yn cael ei chynnal a'i chymeradwyo gan y cyrff proffesiynol canlynol:

- Memorial Awareness Board (MAB)
- Institute of Cemetery and Crematorium Management (ICCM)
- The Federation of Burial and Cremation Authorities (FBCA)
- The Society of Local Council Clerks (SLCC)
- British Register of Accredited Memorial Masons (BRAMM)

Mae'r cyngor yn paratoi ar gyfer y dyfodol a gwariant hir-dymor drwy ymestyn y fynwent. Fe welwch fod y wal wedi chodi a amgylch y rhan estynedig a bydd yn parhau yn ystod 2025 / 2026 i wneud mwy o waith.




### Caeau Chwarae

Mae swm sylweddol wedi ei neilltuo tuag at ein caeau chwarae ac mae'n braf gweld fod campfa awyr agored Cwm y Glo yn cael defnydd cyson.

Mae cynnal a chadw ein caeau chwarae yn flaenoriaeth sy'n cyd fynd â'n polisi Iechyd a Diogelwch a dymunaf ddiolch i bawb sydd yn cadw llygaid i sicrhau nad oes difrod yn cael ei achosi.

Yn ddiweddar, fe ymgysylltodd y cyngor gyda plant yr ysgol gynradd i holi pa offer fyddent yn hoffi ei weld yn cae chwarae Pwll Moelyn. Cafwyd ymateb positif iawn a beth ddaeth ar frig y rhestr ond byrddau picnic. Mae'r cyngor wedi pwrcasu dau fwrdd picnic a byddent yn cael eu gosod yn yr wythnosau nesaf.

Yn ail o'r offer roedd offer dringo. Bydd y cyngor yn edrych i fewn i ddarparu offer o'r math yma yn ystod 2025 / 2026.

Dymuna'r cyngor ddiolch yn fawr iawn i blant yr ysgol am eu rhan yn yr arolwg.